


Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Cynllun Iaith Gymraeg

Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993



Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG) a Chronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) wedi mabwysiadu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth weinyddu busnes cyhoeddus. Mae'r cynllun yma'n esbonio sut y byddwn ni'n rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Fe gafodd y Cynllun ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar XXXXXX.

I. Cyflwyniad

Fe gafodd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG) ei sefydlu dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980. Cafodd ei sefydlu er mwyn cofio am y bobl a roddodd eu bywydau dros y Deyrnas Unedig. Mae'r Gronfa'n cael ei hariannu gan y Llywodraeth. Ei phwrrpas yw cynnig, yn niffyg pob ffynhonnell arall, grantiau i gadw, cynnal a gwarchod rhannau eithriadol ein treftadaeth genedlaethol.

Mae 15 o Ymddiriedolwyr, yn cynnwys Cadeirydd, a'r Prif Weinidog sy'n eu penodi.

Yn 1993, cafodd CGDG ei phenodi i ddosbarthu'r gyfran o'r arian mae'r Loteri'n ei godi sy'n mynd er budd y Dreftadaeth. Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) sy'n dosbarthu arian y Loteri ar ran CGDG.

Mae gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri dri amcan sylfaenol. Mae'r amcanion hyn yn diffinio'n gyffredinol sut mae CDL yn mynd ati i ddefnyddio'r dreftadaeth i wella ansawdd bywydau pobl, sef:

- annog mwy o bobl i ymwneud â'u treftadaeth ac i wneud penderfyniadau amdani;
- gwarchod a gwella treftadaeth amrywiol y DU;
- gofalu y caiff pawb fwynhau a dysgu am eu treftadaeth, a bod pawb yn gallu mynd ati'n rhwydd.

Un nod arall yw ceisio gofalu bod ein grantiau'n cael eu rhannu'n deg ar draws y DU.

O ran polisiâu, mae CDL yn cael cyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddatblygu rhaglenni grant y Gronfa, ac am eu rhoi ar waith.

Caiff un aelod o'r Bwrdd ei benodi'n Ymddiriedolwr dros Gymru ac mae'n cadeirio Pwyllgor Cymru o CDL. Mae gan Bwyllgor Cymru hyd at saith aelod. Y Pwyllgor yma sy'n penderfynu ar grantiau CDL hyd at £2 filiwn, ac yn cynghori Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar y blaenoriaethau o safbwynt diwylliant Cymru.

Swyddfa Caerdydd sy'n prosesu pob cais o Gymru. Ar hyn o bryd, mae 15 aelod o staff yn gweithio yn swyddfa Caerdydd.

Mae amryw o gynlluniau ar gael sy'n dyfarnu grantiau i wahanol fathau o brosiectau treftadaeth o wahanol faint, sef:

- | | |
|---------------------------------|---------------------------------------|
| • Arian i Bawb Cymru | (grantiau rhwng £500 – £5,000) |
| • Eich Treftadaeth | (grantiau rhwng £5,000 - £50,000) |
| • Grantiau Cynllunio Prosiectau | (grantiau rhwng £5,000 - £50,000) |
| • Grantiau Treftadaeth | (grantiau o £50,000 neu fwy) |
| • Parciau ar gyfer Pobl | (grantiau rhwng £250,000 - £5 miliwn) |
| • Menter Treftadaeth Treflun | (grantiau rhwng £250,000 - £2 filiwn) |

- Partneriaethau Tirweddau (grantiau rhwng £250,000 - £2 filiwn)
- Grantiau Atgyweirio Mannau Addoli yng Nghymru (grantiau rhwng £10,000 - £100,000)
- Gwreiddiau Ifanc (grantiau rhwng £5,000 - £25,000)

I wahanol raddau, gall pob un o grantiau CDL gynnwys prosiectau mae modd eu gweld a'u cyffwrdd (adfer adeiladau er enghraifft) a rhai llai pendant ac amlwg (fel gweithgareddau cymunedau, hyfforddi sgiliau treftadaeth neu gofnodi traddodiadau diwylliannol neu iaith). Ond mae CDL yn gwerthfawrogi bod Cymru'n wlad sy'n frith o dafodieithoedd, acenion, ymadroddion a geirfâu. Geiriau a llythrennau yw sylfeini treftadaeth iaith sy'n bwysig ac yn werthfawr yng Nghymru. Mae'r iaith Gymraeg yn arbennig yn rhan hanfodol o'n hanes, ein tirwedd a'n traddodiadau. Mae ei phresenoldeb a'i dylanwad i'w gweld ym mhobman yn enwau ein trefi, ein pentrefi a'n strydoedd. Yn llai amlwg efallai yw ei chysylltiadau â thraddodiadau a geirfâu gwahanol grefftau a diwydiannau. Ac mae beirdd, awduron ac artistiaid eraill yn ei defnyddio i'w mynegi eu hunain. Trwy ei gwaith bydd CDL yn annog prosiectau treftadaeth iaith yng Nghymru ei hun ac mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig fel ei gilydd.

Bydd y Cynllun Iaith Gymraeg yma'n dangos sut rydyn ni'n cyfrannu at bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o greu Cymru ddwyieithog. Y ddogfen '*Iaith Pawb*' sy'n disgrifio'r polisi hwnnw.

2. Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau

2.1 Cyflwyno gwasanaethau

- 2.1.1 Rydyn ni wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Swyddfa Cymru fydd yn arwain y gwaith o gyflwyno gwasanaeth dwyieithog er bod y Cynllun yn berthnasol i CDL drwyddi draw.
- 2.1.2 Mae cyhoeddiadau CDL wedi bod yn ddwyieithog ers nifer o flynyddoedd ac mae'n derbyn ffurflenni cais Cymraeg. Rydyn ni'n barod wedi mabwysiadu delwedd gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru, ac rydyn ni wedi ymrwymo i wella'r broses o hybu ein gwasanaeth dwyieithog a'i wneud yn fwy effeithlon.
- 2.1.3 Anfonwch unrhyw gwestiynau am y Cynllun yma a chwestiynau am wasanaeth dwyieithog CDL at Adam Hitchings, Swyddog Datblygu. Rheolwr Cymru sy'n gyfrifol am fonitro'r Cynllun yn gyffredinol. Hi hefyd sy'n gyfrifol am ddatblygu'r Cynllun a chyflwyno gwasanaethau. Mae hi hefyd yn gyfrifol am hybu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac am greu canllawiau mewnol ar gyfer aelodau'r tîm i'w helpu i ddeall a dehongli'r Cynllun.

2.2 Safonau'r gwasanaethau

- 2.2.1 Nod CDL yw bod yn gyson o ran safon y gwasanaethau sydd ar gael ym mhob un o'i swyddfeydd.
- 2.2.2 Pan mae'r gwasanaethau'n cael eu cyflwyno yn Gymraeg, byddan nhw o'r un safon uchel â'r gwasanaethau Saesneg.
- 2.2.3 Cyfrifoldeb Rheolwr Cymru fydd gofalu bod safon y gwasanaethau rydyn ni'n eu cyflwyno'n gyfartal yn y ddwy iaith.

2.3 Polisiâu a mentrau

- 2.3.1 Bydd CDL yn gofalu bod polisiâu a mentrau'n cyflawni'r ymrwymadau sydd yn y Cynllun yma. Byddwn ni hefyd yn hybu a defnyddio'r Gymraeg yn unrhyw un o'n cynlluniau newydd. Cyn eu gweithredu, byddwn ni'n trafod unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i'r Cynllun gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ac yn gofalu bod y Bwrdd yn cytuno â nhw.

3. Cyflwyno gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru

3.1 Gohebiaeth ysgrifenedig

- 3.1.1 Mae CDL yn croesawu llythyrau a gohebiaeth arall yn Gymraeg ac yn Saesneg. Pan fyddwn ni'n cael gohebiaeth Gymraeg, naill ai yn swyddfa Cymru neu yn unrhyw un o'n swyddfeydd eraill, fe fyddwn ni'n anfon ateb Cymraeg wedi'i lofnodi. Mae'n hamser targed ar gyfer ateb llythyrau Cymraeg yn union yr un fath â'r amser targed ar gyfer llythyrau Saesneg. Fel yn achos llythyrau Saesneg, os yw hyd neu natur yr ymholiad yn ei gwneud hi'n amhosib i ni gadw at y targed yma, byddwn ni'n anfon llythyr interim yn unol â'r drefn sy'n dilyn.

Y drefn weinyddol

- Caiff llythyrau byr eu cyfieithu'n fewnol gan staff gweinyddol sy'n siarad Cymraeg. Mae llythyrau hirach yn cael eu hanfon at gyfieithwyr allanol a'u prawf ddarllen o safbwynt cywirdeb yn swyddfa Cymru.
(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)
- Yng nghyswllt gwasanaethau asesu a monitro, bydd canllawiau'n cael eu creu er mwyn gofalu bod holl staff swyddfa Cymru'n gwybod am y drefn o ran cyfieithu a darllen proflenni.
(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)
- Mae cofnod o'r cyrff ac aelodau'r cyhoedd sydd am gael gohebiaeth a chyhoeddiadau yn Gymraeg i gael ei gadw ar gronfa ddata.
(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)
- Mewn achosion lle'r ydyn ni'n ymwybodol mai Cymraeg yw dewis iaith mudiad neu unigolyn, bydd gohebiaeth Gymraeg yn cael ei hanfon o swyddfa Cymru, oni bai i ni gael cais fel arall.
(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)
- Yn dilyn cyswllt wyneb-yn-wyneb neu gyswllt dros y ffôn yn Gymraeg, bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon yn Gymraeg, oni bai i ni gael cais fel arall.
(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)
- Pan fyddwn ni'n ysgrifennu am y tro cyntaf at y cyhoedd yng Nghymru, heb wybod dewis iaith y sawl fydd yn cael y llythyr, byddwn ni'n anfon llythyr dwyieithog.
(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)
- Bydd troednodyn dwyieithog ar bapur pennawd swyddfa Cymru'n nodi 'Mae CDL yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg'
(Dyddiad targed: Rhagfyr 2007).

3.2 Gohebiaeth e-bost

3.2.1 Pan fyddwn ni'n cael gohebiaeth drwy e-bost, bydd yr un egwyddor yn berthnasol â gohebiaeth ysgrifenedig.

3.3 Cysylltu dros y ffôn

3.3.1 Yn swyddfa Cymru, rydyn ni'n croesawu ymholiadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae staff y swyddfa'n defnyddio cyfarchiad dwyieithog wrth ateb ffôn y prif swyddfa a'r llinellau uniongyrchol.

Y drefn weinyddol

- Mae cyfarchiad dwyieithog ar beiriant ateb y prif ffôn yn swyddfa Cymru. Mae staff sy'n siarad Cymraeg bob amser ar gael i dderbyn ac i ymateb i negeseuon Cymraeg.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Os bydd unigolyn sy'n ffonio swyddfa Cymru am siarad yn Gymraeg, bydd aelod o staff y swyddfa'n delio â'r ymholiad.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Os bydd swyddog di-Gymraeg yn ateb yr alwad, bydd y sawl sy'n galw'n cael dewis siarad â rhywun sy'n siarad Cymraeg. Os nad oes swyddog sy'n siarad Cymraeg ar gael, bydd y galwr yn cael dewis aros i swyddog sy'n siarad Cymraeg ei ffonio'n ôl neu barhau â'r alwad yn Saesneg.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Pan fydd rhywun yn ffonio un o swyddfeydd CDL y tu allan i Gymru gan ofyn am gael siarad Cymraeg, bydd gofyn i'r galwr adael ei enw a'i rif ffôn. Bydd swyddog sy'n siarad Cymraeg yn ei ffonio'n ôl cyn gynted â phosib.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Os yw'r sawl sy'n galw'n dechrau sgwrs yn Gymraeg, byddwn ni'n parhau'r sgwrs yn Gymraeg oni bai fod y galwr yn gofyn am newid yr iaith.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Nid yw'n bosib i ni sicrhau bob amser fod y swyddog sy'n siarad Cymraeg sy'n delio â'r ymholiad yn arbenigo yn y maes arbennig dan sylw. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd rhaid cynnal rhan o'r sgwrs yn Saesneg. Lle nad yw'n bosib rhoi gwybodaeth arbenigol yn llafar yn Gymraeg, bydd y galwr yn cael dewis naill ai delio â'i ymholiad yn Gymraeg trwy lythyr, neu yn Saesneg dros y ffôn.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)

3.4 Seminarau, gweithdai a chynadleddau i'r wasg

3.4.1 Mae croeso i aelodau'r cyhoedd siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg yn y prif seminarau, gweithdai neu gynadleddau mae CDL yn eu trefnu yng Nghymru.

Y drefn weinyddol

- Mae llythyrâu'n gwahodd pobl i ddigwyddiadau yng Nghymru'n cael eu hanfon yn ddwyieithog.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Mewn digwyddiadau mwy fel cynadleddau a chyfarfodydd ymgynghori, bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd am siarad yn Gymraeg. Bydd y gwahoddiadau'n nodi hyn.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Mewn digwyddiadau llai fel cyfarfodydd trafod grant a gweithdai a seminarau trafod cyllid, byddwn ni'n gofalu bod aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol. Byddwn ni'n rhoi cyfle i'r cyhoedd roi gwybod i ni o flaen llaw am eu dewis iaith.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Mewn cyfarfodydd cyffredinol, bydd aelodau pwyllgor, staff gweinyddol a chynrychiolwyr cysylltiadau cyhoeddus sy'n siarad Cymraeg ar gael ar gyfer aelodau'r cyhoedd sydd am siarad yn Gymraeg.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Bydd staff swyddfa Cymru a staff yr adran Gyfathrebu'n cael gwybod am y drefn ar gyfer llogi a defnyddio offer cyfieithu ar y pryd.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Mae Cymry Cymraeg yn aelodau o bwyllgorau CDL. Maen nhw ar gael i siarad mewn cynadleddau, seminarau a chyfarfodydd ymgynghori.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Bydd staff CDL sy'n siarad Cymraeg ar gael i fynd i gyfarfodydd trafod grant, gweithdai ac arddangosfeydd i ddelio ag ymholiadau cyffredinol yn Gymraeg.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Bydd staff sy'n siarad Cymraeg yn dangos eu bod nhw'n siarad yr iaith trwy wisgo bathodynau "Iaith Gwaith".
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Pan fydd CDL yn cynnal cyfarfod cyhoeddus yng Nghymru, byddwn ni'n gofalu bod swyddog sy'n siarad Cymraeg ar gael i roi cyflwyniad yn Gymraeg ac i groesawu pobl eraill i gyfrannu yn Gymraeg, os dyna yw eu dewis iaith. Bydd y swyddog hefyd yn rhoi gwybod i bobl sydd heb fod yn siarad Cymraeg fod gwasanaeth cyfieithu ar gael.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)

3.5 Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd

- 3.5.1 Pan fyddwn ni'n trefnu cyfarfod ag aelod o'r cyhoedd yr ydyn ni'n gwybod mai Cymraeg yw ei ddewis iaith, bydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn dod i'r cyfarfod fel bod modd ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.5.2 Er mai ychydig iawn o ymwelwyr sy'n dod yn bersonol i swyddfa Cymru i wneud ymholiadau, mae aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i siarad â nhw.

3.6 Cyfarfodydd pwyllgor/ymddiriedolwyr

- 3.6.1 Bydd cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr yn Saesneg yn unig. Fel arfer, Saesneg fydd iaith cyfarfodydd Pwyllgor Cymru a bydd y cofnodion yn Saesneg yn unig. Byddai'n bosib cael fersiwn Gymraeg o gofnodion y cyfarfodydd yma, os bydd rhywun yn gofyn.

3.7 Ymgeiswyr llwyddiannus am grantiau

- 3.7.1 Rhaid i bob ymgeisydd sy'n llwyddo i gael un o grantiau CDL lofnodi contract gyda CGDG. Mae'r contractau safonol ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd un o gyfreithwyr CGDG yn drafftio contractau manwl neu gymhleth eu natur yn Saesneg. Byddan nhw'n cael eu hanfon wedyn at gyfreithiwr allanol sy'n siarad Cymraeg i gael eu cyfieithu.
- 3.7.2 Yn ystod y broses o asesu ceisiadau yng Nghymru, bydd CDL yn gofalu bod ymgeiswyr yn rhoi sylw i'w cyfrifoldebau o ran y Gymraeg wrth ddatblygu eu prosiectau. Mae gan brosiectau hawl i gynnwys costau cyfieithu taflenni gwybodaeth, arddangosfeydd, byrddau dehongli ac ati yng nghostau'r prosiect. Trwy wneud hynny, mae'n bosib i brosiectau sy'n cael eu hariannu trwy'r loteri gynnig darpariaeth ddwyieithog trwy CDL yng Nghymru.

4. Wyneb cyhoeddus y mudiad

4.1 Delwedd gorfforaethol

- 4.1.1 Bydd delwedd gorfforaethol Cronfa Dreftadaeth y Loteri'n gwbl ddwyieithog yng Nghymru.

Y drefn weinyddol

- Mae'r logo'n ddwyieithog yn swyddfa Cymru ar bapur pennawd, slipiau cyfarch, dalennau blaen negeseuon ffacs, cardiau busnes staff, placiau, tystysgrifau a'r deunyddiau brandio. *(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)*
- Mae'n swyddfeydd y tu allan i Gymru'n defnyddio papur pennawd dwyieithog wrth anfon gohebiaeth at fudiadau yng Nghymru. *(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)*

4.2 Arwyddion gwybodaeth ar gyfer prosiectau sy'n cael eu hariannu gan CGDG/CDL

- 4.2.1 Rydyn ni'n disgwyl i fudiadau a grwpiau sydd wedi cael grant gydnabod ein cefnogaeth trwy frandio. Mae placiau, arwyddion, baneri, logos ar gyfer cerbydau ac ati i gyd ar gael yn ddwyieithog am ddim. Mae bromidau dwyieithog ar gael hefyd.
- 4.2.2 Bydd prosiectau yng Nghymru bob amser yn cael deunyddiau brandio dwyieithog i'w defnyddio.

4.3 Cyhoeddiadau a deunyddiau ysgrifenedig

- 4.3.1 Rydyn ni'n cyhoeddi ac yn argraffu yn Gymraeg ac yn Saesneg yr holl ddeunyddiau sydd i'w dosbarthu yng Nghymru. Ymhlith y cyhoeddiadau a'r deunyddiau ysgrifenedig mae ffurflenni cais, nodiadau canllaw, taflenni gwybodaeth, cylchlythyrau a dogfennau strategol.
- 4.3.2 Rydyn ni wedi creu methodoleg (trowch at Atodiad A) sy'n ein helpu ni i fod yn gyson ac yn wrthrychol wrth benderfynu pa eitemau yw'r pwysicaf i gael eu cyfieithu. Mae'n rhestru'n glir yr eitemau a fydd yn ddwyieithog, y rhai a fydd yn ddwyieithog os yw adnoddau'n caniatáu ar y pryd, a'r rhai a fydd fel arfer mewn un iaith. Mae'r fethodoleg hefyd yn disgrifio'r meini prawf y byddwn ni'n eu defnyddio wrth ddod i benderfyniad. Byddwn ni'n defnyddio'r meini prawf wrth adolygu cyhoeddiadau ac wrth gyhoeddi pob cyhoeddiad newydd.
- 4.3.3 Wrth greu neu adolygu cyhoeddiad, bydd gofyn i'r Swyddog Datblygu sydd wedi'i enwi ar dudalen 5 asesu yn y lle cyntaf ar sail y fethodoleg. Bydd hefyd yn cynghori staff timau ac adrannau eraill. Pan fydd cyhoeddiadau'n perthyn i gategori A (dwyieithog) neu gategori B (dwyieithog os yw adnoddau ar gael), bydd gofyn i adrannau ganiatáu ar gyfer hynny wrth drefnu'r gwaith. Fyddwn ni ddim yn ystyried bod cyhoeddiadau sydd i fod yn ddwyieithog yn gyflawn tan fydd y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg fel ei gilydd yn barod.
- 4.3.4 Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd fel arfer, mewn un cyhoeddiad dwyieithog. Ond os nad yw hyn yn ymarferol, byddwn ni'n cyhoeddi fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân. Er enghraifft: pan fo dogfen ar gyfer y DU gyfan yn swmpus iawn a dim ond rhannau ohoni sy'n berthnasol i Gymru, caiff y cyflwyniad a'r rhan sy'n berthnasol i Gymru eu cyfieithu er mwyn creu fersiwn ysgafnach.

Y drefn weinyddol

- Lle bynnag y bo hynny'n bosib, fe fyddwn ni'n creu fersiwn ddwyieithog o ddogfennau a chyhoeddiadau. O safbwynt dylunio, rydyn ni bob amser yn ystyried arddull ddwyieithog yng Nghymru. Er hynny, pan mae'r cyhoeddiadau'n hir neu'n swmpus, er enghraifft pecynnau cais, rydyn ni'n creu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân, gyda'r nod o'u cyhoeddi a'u dosbarthu'r un pryd.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Os nad yw'n glir pa iaith yw dewis iaith yr un fydd yn cael y deunydd, mae fersiwn ddwyieithog neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o gyhoeddiadau'n cael eu cyhoeddi'r un pryd yng Nghymru.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Pan fydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfen yn cael eu hargraffu ar wahân, bydd nodyn yn y ddwy ddogfen yn esbonio'i bod hi hefyd ar gael yn yr iaith arall.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Mae atodiad yr Adroddiad Blynnyddol ar gyfer Cymru'n cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog. Caiff ei gyhoeddi'r un pryd â phrif Adroddiad Blynnyddol y DU. Caiff Cynulliad

Cenedlaethol Cymru gopi o'r Adroddiad Blynyddol ac atodiad Cymru i'w cadw yn y llyfrgell.

(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)

- Pan fydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o gyhoeddiadau'n cael eu creu ar wahân, fyddan nhw ddim yn cael eu dosbarthu i'r cyhoedd tan fydd y ddwy fersiwn ar gael.

(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)

4.4 Ffurflenni cais a thaflenni canllaw

4.4.1 Mae ffurflenni cais a chanllawiau cyffredinol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae deunyddiau (fel contractau, dogfennau monitro a ffurflenni monitro) sy'n cael eu defnyddio ar ôl dyfarnu grant hefyd ar gael yn y ddwy iaith.

4.4.2 Bydd ffurflenni cais electronig dwyieithog ar gael o fis Hydref 2008.

Y drefn weinyddol

- Mae croeso i bobl anfon cais yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os bydd mudiad yn cyflwyno cais yn Gymraeg, bydd unrhyw ohebiaeth gyffredinol neu ddogfennau swyddogol sy'n mynd atyn nhw wedyn yn Gymraeg.

(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)

- Os yw mudiad am gael gohebiaeth/dogfennau yn y ddwy iaith, mae'n bosib trefnu hynny ar ôl i'r corff ofyn.

(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)

- Yn dilyn patrwm cyrff eraill yng Nghymru sy'n dosbarthu arian y Loteri, bydd swyddog grantiau sy'n siarad Cymraeg ar gael i asesu cais Cymraeg. Byddwn ni'n delio yn Gymraeg â phob gohebiaeth ac yn defnyddio'r iaith wrth gyfathrebu'n uniongyrchol â'r ymgeisydd neu'r sawl a gafodd grant.

(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)

4.5 Datganiadau i'r wasg

- 4.5.1 Yn Saesneg yn unig fydd datganiadau i'r wasg sy'n cael eu hanfon at bapurau/cylchgronau Saesneg. Os bydd datganiad i'r wasg yn mynd at y wasg neu'r cyfryngau a fydd yn trosglwyddo'r wybodaeth yn Gymraeg, bydd y fath ddatganiad yn ddwyieithog.
- 4.5.2 Mae cwmni cysylltiadau cyhoeddus allanol penodedig yn cydlynu'r gwaith cyfieithu. O safbwynt cywirdeb, mae proflenni'n cael eu darllen yn ôl y galw yn swyddfa Cymru.
- 4.5.3 Mae Aelodau Pwyllgorau a chynrychiolwyr cysylltiadau cyhoeddus ar gael yn ôl y galw i gael eu cyfweld yn Gymraeg gan y wasg neu'r cyfryngau.

4.6 Cyhoeddusrwydd, marchnata ac arddangosfeydd

- 4.6.1 Wrth wneud y gwaith cyhoeddusrwydd sy'n dod yn sgil marchnata a hysbysebu cynlluniau a llyfryddiaeth newydd yng Nghymru, rydyn ni wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Y drefn weinyddol

- Mae llyfryddiaeth a chyhoeddiadau newydd yn cael eu creu naill ai'n ddwyieithog neu ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg. Can nhw eu hanfon allan yn y post gyda'i gilydd yng Nghymru.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Bydd cyhoeddi datganiadau i'r wasg a bwletinau gwybodaeth yng nghyswllt cyhoeddusrwydd, marchnata ac arddangosfeydd yn dilyn y drefn sy'n cael sylw ym mhwynt 4.5.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Bydd arwyddion a deunyddiau arddangos mewn digwyddiadau cyhoeddus yn ddwyieithog yng Nghymru.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Bydd staff sy'n siarad Cymraeg bob amser yn bresennol yn unrhyw un o ddigwyddiadau cyhoeddus CDL (cyfarfodydd trafod grant, arddangosfeydd ac ati).
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)

4.7 Hysbysiadau cyhoeddus

- 4.7.1 Mae pob hysbysiad cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau, tendrau neu raglenni newydd yng Nghymru'n cael eu hysbysebu'n ddwyieithog ym mhapurau newydd Cymru.

Y drefn weinyddol

- Yr adran briodol (Gweithrediadau, Cyfathrebu neu Bersonél) sy'n paratoi hysbysiadau a hysbysebion cyhoeddus, a chyfieithwyr allanol sy'n eu cyfieithu.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)

4.8 Rhyngrwyd

- 4.8.1 Rydyn ni wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ym mhob dull o gyfathrebu. Rydyn ni wedi ymrwymo i wella'r gwasanaeth Cymraeg rydyn ni'n ei gynnig trwy'n gwefan. Byddwn ni'n monitro'r wefan ac yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol er mwyn cynnig gwasanaeth i'n cynulleidfa sy'n siarad Cymraeg.

Y drefn weinyddol

- Bydd tudalen we 'Yn eich ardal' i'w gweld naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg yng Nghymru. Bydd y tudalennau Saesneg yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r naw rhanbarth yn Lloegr ar gael yn Saesneg yn unig.
(*Dyddiad targed: Ionawr 2006.*)
- Byddwn ni'n cyhoeddi cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg yr un pryd ar y rhyngrwyd. Ond, os nad yw dogfen ar gael yn Gymraeg, bydd neges i'w gweld yn nodi'r dyddiad y bydd y ddogfen ar gael ar y rhyngrwyd.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)

5. Gweithredu a monitro'r cynllun

5.1 Staffio

- 5.1.1 Er mwyn cynnal gwasanaeth llawn drwy'r Gymraeg, rhaid i CDL gyflogi pobl sy'n gallu siarad ac ysgrifennu'r iaith.
- 5.1.2 Cyfrifoldeb Rheolwr Cymru yw adolygu o bryd i'w gilydd y swyddi mae angen siaradwr Cymraeg ar eu cyfer a'r swyddi lle byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn fantais. Bydd swydd ddisgrifiadau a hysbysebion swyddi'n nodi hyn yn glir.

Y drefn weinyddol

- Bydd swyddog grantiau sy'n siarad Cymraeg ar gael i asesu ceisiadau Cymraeg. Byddwn ni'n gwneud ein gorau glas i geisio cyflogi swyddogion grant sy'n siarad Cymraeg ac sydd hefyd yn ateb gofynion y swydd.
(*Dyddiad targed: Wedi'i gyflawni'n barod, ac yn parhau.*)
- Bydd staff gweinyddol sy'n siarad Cymraeg ar gael i gynnig cymorth gweinyddol dwyieithog i'r swyddogion grant ac i ateb cwestiynau gan bobl sy'n siarad Cymraeg.

(Dyddiad targed: Wedi'i gyflawni'n barod, ac yn parhau.)

5.2 Recriwtio

- 5.2.1 Rydyn ni'n awyddus i ddenu rhagor o staff sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog er mwyn hwyluso'r gwaith o roi'r Cynllun yma ar waith. Mae pob ymarfer recriwtio'n cael ei wneud yn deg, ond mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn bwysicach ar gyfer rhai swyddi.
- 5.2.2 Bydd datganiad yn cael ei gynnwys yn yr hysbyseb yn nodi safon y Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer y swydd arbennig dan sylw. Os yw'n hanfodol i'r sawl sy'n cael y swydd allu cyfathrebu yn Gymraeg, byddwn ni'n ystyried rhoi hysbysebion ychwanegol mewn papurau newydd Cymraeg. Ar gyfer swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol, bydd hysbyseb y swydd yn nodi hynny. Lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, bydd yr hysbyseb yn Gymraeg yn unig gydag esboniad byr yn Saesneg. Yn yr achosion hyn, byddwn ni'n rhoi cyfleoedd i ymgeiswyr ddangos safon eu gallu ysgrifenedig a llafar yn ystod y cyfweiliad.
- 5.2.3 Byddwn ni'n monitro'r cyfanswm o staff y mudiad sy'n siarad Cymraeg. Bydd ymarferion recriwtio newydd yn rhoi sylw i anghenion ieithyddol cyffredinol y mudiad wrth benodi staff newydd.

Y drefn weinyddol

- Personél fydd yn creu'r hysbysebion ar gyfer swyddi yn swyddfa Cymru, a'r Ysgrifenyddiaeth fydd yn creu hysbysebion ar gyfer aelodau pwyllgorau. Caiff hysbysebion eu cyfieithu gan gyfieithwyr allanol a'u prawf ddarllen o safbwynt cywirdeb yn swyddfa Cymru.
(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)
- Mae hysbysebion dwyieithog am staff ar gyfer swyddfa Cymru ac aelodau pwyllgor yn cael eu gosod mewn papurau newydd yng Nghymru.
(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)
- Bydd hysbysebion am staff y tu allan i swyddfa CDL yng Nghymru'n cael eu gosod yn Saesneg yn unig ym mhapurau newydd y DU.
(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)
- Ar gyfer swyddi lle mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol, bydd yr hysbyseb yn Gymraeg yn unig gydag esboniad byr yn Saesneg.
(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)
- Bydd ffurflenni cais, cwestiynau atodol a manylion am swyddi yn swyddfa Cymru'n cael eu dosbarthu'n ddwyieithog.
(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)
- Bydd cyfweiliadau am swyddi yn swyddfa Cymru'n cael eu cynnal yn Saesneg. Ond byddwn ni'n gwneud ein gorau i fodloni unrhyw gais i gael cynnal rhan o'r cyfweiliad yn Gymraeg.
(Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.)

- Ar gyfer swyddi lle mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol, bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos safon eu gallu ysgrifenedig a llafar yn ystod y cyfweiliad.
(*Dyddiad targed: On approval of the scheme.*)
- Byddwn ni'n sôn am ein hymrwymiad i hyfforddiant yn y Gymraeg wrth greu pob swydd ddisgrifiad ar gyfer swyddi yn swyddfa Cymru.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)

5.3 Hyfforddiant iaith Gymraeg

5.3.1 Rydyn ni'n annog ein staff i ddatblygu a gwella'u sgiliau yn y Gymraeg.

Y drefn weinyddol

- Mae staff di-Gymraeg yn cael eu hannog i fynd i'r dosbarthiadau sy'n cael eu trefnu a'u hariannu gan y mudiad er mwyn helpu staff i ddysgu Cymraeg. Mae modd mynd i ddosbarthiadau yn ystod oriau gwaith neu'r tu allan i oriau gwaith.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hannog i ddatblygu a gloywi'u sgiliau Cymraeg ysgrifenedig a llafar ac i ddatblygu sgiliau iaith mewn meysydd newydd os oes angen ac os ydyn nhw'n awyddus. Pan ddaw cyfleoedd hyfforddi i sylw'r mudiad, bydd yn trefnu cyrsiau ac yn talu amdany'n nhw.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Byddwn ni'n monitro ceisiadau am hyfforddiant Cymraeg fel rhan o'r drefn Arfarnu Staff. Byddwn ni'n defnyddio'r un drefn i bwyso a mesur llwyddiant y fath hyfforddiant.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Rydyn ni hefyd yn annog dulliau anffurfiol o hyfforddi. Byddwn ni'n pennu staff sy'n siarad Cymraeg i fod yn fentoriaid i helpu eraill gyda'u sgiliau Cymraeg ysgrifenedig a llafar.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)
- Byddwn ni hefyd yn trefnu ac yn talu am gyrsiau Cymraeg ar y safle os oes digon o alw gan y staff.
(*Dyddiad targed: Ar waith yn barod ac yn parhau.*)

5.4 Monitro'r Cynllun

5.4.1 Mae CDL wedi ymrwymo i fonitro'r broses o roi'r Cynllun yma ar waith. Cyfrifoldeb Rheolwr Cymru yw gofalu bod y Cynllun yn cael ei weithredu.

5.4.2 Mae gweithgor wedi cael ei sefydlu i fonitro'r ffordd mae'r Cynllun yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith. Ar hyn o bryd, mae cynrychiolwyr o swyddfa Cymru, yr Adran Gyfathrebu a'r Uwch Reolwyr yn aelodau o'r grŵp. Bydd y grŵp yn cyfarfod bob 3 mis neu'n amlach os oes galw. Gwaith y grŵp yw trafod a rhoi sylw i oblygiadau'r Cynllun ac adrodd yn ôl i'r Grŵp Rheoli yn ôl y galw.

- 5.4.3 Mae nifer y ceisiadau Cymraeg a ddaw i law'n cael ei fonitro. Rydyn ni hefyd yn cofnodi unrhyw gwynion neu awgrymiadau ar gyfer gwella.
- 5.4.4 Bydd pob aelod o staff yn swyddfa Cymru ac yn yr Adran Gyfathrebu'n cael copi o'r Cynllun a chopi o'r canllawiau ynglŷn â'u cyfrifoldebau o ran ateb ei ofynion.
- 5.4.5 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau, gwestiynau neu awgrymiadau ar gyfer gwella'r polisi yma, anfonwch nhw at:

Rheolwr Cymru
Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Swît 5A
Tŷ Hodge
Plas y Neuadd
Caerdydd
CF10 1DY

5.5 Perfformiad yn erbyn safonau penodedig

- 5.5.1 Bydd targedau ymateb ar gyfer delio â gohebiaeth, ceisiadau a hawliadau am randaliadau grant yr un fath yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd staff sy'n siarad Cymraeg yn helpu gyda gohebiaeth ac yn cyfieithu yn ôl yr angen er mwyn cyflawni targedau ymateb y mudiad.
- 5.5.2 Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi er mwyn adrodd am y broses o fonitro'r Cynllun a'i roi ar waith. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Ymddiriedolwyr ac i Bwyllgor Cymru. Bydd wedyn yn mynd ymlaen at Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn y fformat y byddan nhw'n gofyn amdano.
- 5.5.3 Os byddwn ni'n methu â chyflawni unrhyw rai o'r ymrwymadau, bydd yr adroddiad yn esbonio pam. Bydd hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu ar gyfer gofalu bod yr ymrwymadau'n cael eu cyflawni yn y dyfodol.

6. Rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

- 6.1 Ar ôl cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd, bydd trefniadau'n cael eu gwneud iddo fod ar gael yn brydlon mewn print neu ffurfiau hawdd eu cael. Bydd yr adroddiad hefyd ar gael ar ein gwefan: www.hlf.org.uk. Bydd yn bosib cael copi print drwy anfon cais at Reolwr Cymru:

Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Swît 5A
Tŷ Hodge
Plas y Neuadd
Caerdydd
CF10 1DY

Y drefn weinyddol

- Ar ôl i'r Cynllun gael ei gymeradwyo, bydd datganiad dwyieithog i'r wasg yn cael ei baratoi a'i anfon at y wasg a'r cyfryngau Cymraeg yng Nghymru.
(*Dyddiad targed: Ar ôl i'r Cynllun gael ei gymeradwyo.*)
- Bydd yn bosib cael copïau dwyieithog o'r Cynllun yma am ddim trwy'r post neu drwy alw'n bersonol yn swyddfa Cymru yng Nghaerdydd (mae cyfeiriad y swyddfa'n dilyn). Bydd hefyd ar gael ar ein gwefan.
(*Dyddiad targed: Ar ôl i'r Cynllun gael ei gymeradwyo.*)
- Bydd holl aelodau newydd o staff ac o bwyllgor Cymru'n cael gwybod am eu cyfrifoldebau o ran rhoi'r gwahanol agweddau ar y Cynllun yma ar waith.
(*Dyddiad targed: Ar ôl i'r Cynllun gael ei gymeradwyo.*)
- Bydd pob un o adrannau CDL yn cael copi o'r Cynllun laith y bydd y Bwrdd wedi'i gymeradwyo.
(*Dyddiad targed: O fewn wyth wythnos i'w gyhoeddi.*)

7. Cwynion

- 7.1 Mae CGDG wedi ymrwymo i sefydlu system gwyno glir a hawdd ei defnyddio. Pan mae unigolyn yn credu bod CGDG wedi methu â chydymffurfio â'r Cynllun yma, a bod hynny wedi effeithio'n uniongyrchol arno, fe ddylai dynnu sylw Jennifer Stewart, Rheolwr Cymru, at y gwyn yn y lle cyntaf. Mae ei chyfeiriad post yn dilyn, neu mae modd anfon e-bost at jennifers@hlf.org.uk. Pan mae unigolyn yn teimlo y byddai'n well ganddo i gorff arall gwyno ar ei ran, dylai'r corff hwnnw ddod â'r gwyn i sylw Rheolwr Cymru. Ar y dechrau, bydd CDL yn ymchwilio i'r gwyn yn fewnol a bydd yn ymateb i'r sawl sy'n cwyno o fewn pedair wythnos. Wrth ymateb, bydd CDL yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n cwyno sut mae mynd ati os yw'n dymuno codi'r mater gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Os bydd y Bwrdd yn penderfynu ymchwilio ymhellach, bydd CDL yn cydweithredu'n llawn. Bydd yn caniatáu i'r Bwrdd gysylltu ag unrhyw aelod o staff neu weld unrhyw ddogfennau y mae'n gofyn am eu gweld.

Rheolwr Cymru
Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Swît 5A
Tŷ Hodge
Plas y Neuadd
Caerdydd
CF10 1DY

8. Cynllun Iaith Gymraeg: Crynodeb o'r gweithredu

	Dyddiad targed
1. Gohebiaeth ysgrifenedig	
Bydd gohebiaeth Gymraeg yn cael ateb Cymraeg wedi'i lofnodi.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Pob ateb Cymraeg i gael ei anfon o fewn yr un amserlen ag atebion Saesneg.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Pan fydd mudiad wedi nodi mai'r Gymraeg yw ei ddewis iaith ar gyfer cyfathrebu, dim ond yn Gymraeg y byddwn ni'n cyfathrebu â'r mudiad hwnnw.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd cronfa ddata o gysylltiadau'n nodi ai'r Gymraeg yw eu dewis iaith wrth gyfathrebu.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Yr holl ohebiaeth safonol sy'n mynd o swyddfa Cymru i fod yn ddwyieithog.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Troednodyn i fod ar bapur pennawd swyddfa Cymru'n nodi'n bod ni'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.	Rhagfyr 2007
Bydd canllawiau'n cael eu creu i ofalu bod staff yn gwybod am y drefn ar gyfer cyfieithu a darllen proflenni.	Ar waith yn barod ac yn parhau
2. E-bost	
Bydd llofnod awtomatig dwyieithog gan bob aelod o staff yng Nghymru.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd neges 'allan o'r swyddfa' ddwyieithog gan bob aelod o staff yng Nghymru.	Ar waith yn barod ac yn parhau
3. Galwadau ffôn	
Bydd prif ffôn y swyddfa'n cael ei ateb yn ddwyieithog.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd neges ddwyieithog ar beiriant ateb y prif ffôn a gall y sawl sy'n galw adael neges yn y naill iaith neu'r llall.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Os bydd swyddog di-Gymraeg yn ateb, bydd modd trosglwyddo galwadau at swyddog sy'n siarad Cymraeg neu drefnu i rywun sy'n siarad Cymraeg ffonio'n ôl.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd disgwyl i rywun sy'n ffonio un o'r swyddfeydd y tu allan i Gymru ac sydd am siarad Cymraeg adael ei enw a'i rif ffôn er mwyn i swyddog sy'n siarad Cymraeg gysylltu cyn gynted â phosib.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd swyddogion yn defnyddio cyfarchiad dwyieithog wrth ateb llinellau ffôn uniongyrchol.	Ar waith yn barod ac yn parhau
4. Cynadleddau, cyfarfodydd a digwyddiadau eraill	
Bydd gwahoddiadau i ddigwyddiadau yng Nghymru'n cael eu hanfon yn ddwyieithog.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd offer cyfieithu ar y pryd ar gael mewn digwyddiadau mwy fel cynadleddau a chyfarfodydd ymgynghori.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol mewn digwyddiadau llai fel cyfarfodydd trafod grant a seminarau, os bydd y rhai sy'n dod i'r digwyddiad wedi rhoi gwybod y byddai'n well ganddyn nhw siarad Cymraeg.	Ar waith yn barod ac yn parhau

Bydd yr holl arwyddion a'r cyfarwyddiadau sy'n cyfeirio pobl at y digwyddiad yn ddwyieithog.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Pan mae hynny'n briodol, bydd Cymry Cymraeg sy'n aelodau o bwyllgorau ar gael ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Pan fydd CDL yn cynnal unrhyw ddigwyddiad yng Nghymru a Saesneg yw prif iaith y digwyddiad, byddwn ni'n gofalu bod y cyflwyniad yn Gymraeg ac yn rhoi gwybod i'r aelodau bod croeso iddyn nhw gyfrannu yn Gymraeg.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd aelodau pwyllgorau a staff yn gwisgo bathodynau 'laith Gwaith' i ddangos eu bod nhw'n siarad Cymraeg.	Ar waith yn barod ac yn parhau
5. Delwedd gorfforaethol	
Bydd papur pennawd, logos, cardiau busnes, slipiau cyfarch, bathodynau enw ac unrhyw ddeunyddiau eraill sy'n cynrychioli CDL yn ddwyieithog.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd arwyddion yn swyddfa Cymru'n ddwyieithog.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd deunyddiau brandio yng Nghymru bob amser ar gael yn ddwyieithog.	Ar waith yn barod ac yn parhau
6. Cyhoeddiadau	
Lle bynnag mae hynny'n bosib, bydd yr holl gyhoeddiadau cael eu creu fel un fersiwn ddwyieithog.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Os bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu creu ar wahân, fyddan nhw ddim yn cael eu dosbarthu yng Nghymru tan fydd y ddwy iaith ar gael.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Pan fydd dogfen wedi cael ei chreu mewn dwy fersiwn ar wahân, bydd nodyn yn y ddwy ddogfen yn esbonio'i bod hi hefyd ar gael yn yr iaith arall.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd fersiynau dwyieithog o ffurflenni cais electronig ar gael.	Hydref 2008
Os nad yw'n glir pa iaith yw dewis iaith y sawl sydd i'w gael, bydd fersiwn ddwyieithog neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o'r cyhoeddiad yn cael eu hanfon gyda'i gilydd yng Nghymru.	Ar waith yn barod ac yn parhau
7. Gwefan	
Bydd modd gweld y dudalen 'Yn eich ardal' naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg yng Nghymru	Ionawr 2006
8. Y wasg, cyhoeddusrwydd a marchnata	
Dim ond at y wasg a fydd yn trosglwyddo'r wybodaeth yn Gymraeg y bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu hanfon yn Gymraeg.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Cwmni cyfieithu allanol fydd yn cyfieithu datganiadau i'r wasg i'r cyfryngau Cymraeg, a bydd swyddfa Cymru'n darllen y proflenni o safbwynt cywirdeb.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd aelodau pwyllgorau neu gynrychiolwyr cysylltiadau cyhoeddus ar gael i gael eu cyfweld yn Gymraeg gan y cyfryngau, os oes galw.	Ar waith yn barod ac yn parhau
9. Asesu ceisiadau am grant	
Bydd swyddog grantiau sy'n siarad Cymraeg ar gael i asesu a	Ar waith yn barod ac yn

monitro'r ceisiadau Cymraeg a ddaw i law.	parhau
Pan fydd ymgeisydd yn cyflwyno cais yn Gymraeg, bydd pob gohebiaeth â'r unigolyn hwnnw wedyn yn Gymraeg.	Ar waith yn barod ac yn parhau
10. Monitro ceisiadau am grant	
Bydd contractau safonol ar gael yn rhwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Cyfreithiwr allanol fydd yn drafftio contractau cymhleth a fydd yn mynd wedyn at gyfreithiwr allanol sy'n siarad Cymraeg i'w cyfieithu.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd ffurflenni monitro a hawlio rhandaliadau grant ar gael yn Gymraeg.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd prosiectau yng Nghymru'n cael fersiwn ddwyieithog o blaciau a thystysgrifau cydnabod ac ati.	Ar waith yn barod ac yn parhau
11. Staffio a recriwtio	
Bydd swyddog grantiau sy'n siarad Cymraeg ar gael i asesu a monitro'r ceisiadau Cymraeg a ddaw i law.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd staff gweinyddol sy'n siarad Cymraeg ar gael i gynnig cymorth gweinyddol dwyieithog i'r swyddogion grant ac i ateb cwestiynau gan bobl sy'n siarad Cymraeg.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Personél fydd yn creu'r hysbysebion ar gyfer swyddi yn swyddfa Cymru (staff ac aelodau pwyllgorau). Cân nhw eu cyfieithu'n allanol a'u prawf ddarllen o safbwynt cywirdeb yn swyddfa Cymru.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd ffurflenni cais, cwestiynau atodol a manylion am swyddi yn swyddfa Cymru'n cael eu dosbarthu'n ddwyieithog.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd cyfweiliadau am swyddi yn swyddfa Cymru'n cael eu cynnal yn Saesneg. Ond byddwn ni'n gwneud ein gorau i fodloni unrhyw gais i gael cynnal rhan o'r cyfweiliad yn Gymraeg.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos safon eu gallu ysgrifenedig a llafar yn ystod y cyfweiliad.	Ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo
Bydd yr holl staff yn cael eu hannog i wella'u sgiliau Cymraeg os oes angen ac os ydyn nhw'n awyddus. Gall CGDG/CDL drefnu a thalu am gyrsiau.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd llwyddiant yr hyfforddiant Cymraeg yn cael ei fonitro drwy'r drefn arfarnu staff.	Ar waith yn barod ac yn parhau
12. Ymarferion ymgynghori ac ymchwil	
Bydd ymarferion ymgynghori ac ymchwil y bydd CDL yn eu gwneud yng Nghymru'n cael eu gwneud yn ddwyieithog.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Bydd trydydd partïon sy'n arwain ymarferion ymgynghori ac ymchwil ar ran CGDG/CDL yn cael eu hannog i'w gwneud yn ysbryd y Cynllun Iaith Gymraeg.	Ar waith yn barod ac yn parhau
13. Monitro'r Cynllun	
Bydd y gwaith o fonitro'r Cynllun yn cael ei wneud yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y Cynllun.	Ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo
14. Technoleg	

Bydd unrhyw feddalwedd cyfrifiadur newydd yn cydymffurfio ag ymrwymïadau'r Cynllun.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Pob llythyr asesu Cymraeg i fod ar gael yn rhwydd ar y gronfa ddata fewnol.	Ar waith yn barod ac yn parhau
Pob llythyr monitro Cymraeg i fod ar gael yn rhwydd ar y gronfa ddata fewnol.	Ar waith yn barod ac yn parhau

Atodiad A: Canllawiau wrth ddewis pa ddogfennau fydd yn ddwyieithog neu yn Gymraeg a Saesneg ar wahân.

Eitemau categori A: i fod yn ddwyieithog (neu yn Gymraeg ac yn Saesneg) ac ar gael yr un pryd yng Nghymru

- Hysbysebion
- Adroddiadau blynyddol
- Nodiadau canllaw ceisiadau (yn cynnwys nodiadau canllaw polisiâu)
- Pecynnau ymgeisio
- Astudiaethau achos sy'n berthnasol i Gymru, neu i'w defnyddio neu'u cyhoeddi yng Nghymru
- Dogfennau ymgynghori sy'n berthnasol i Gymru, neu i'w defnyddio neu'u cyhoeddi yng Nghymru
- Contractau/ffurflenni monitro/ffurflenni hawlio rhandaliadau grant
- Deunyddiau arddangos i'w defnyddio yng Nghymru
- Deunyddiau cydnabod grant, er enghraifft, byrddau, placiau, arwyddion ac ati
- Taflenni i'w dosbarthu mewn seminarau/gweithdai yng Nghymru
- Ffurflenni a phecynnau cais am swydd
- Llythyrau sy'n mynd gyda phecynnau cyffredinol o ddeunyddiau yn y post
- Cylchlythyrau – Cymru gyfan
- Llyfryddiaeth cyhoeddusrwydd/eiriolaeth sy'n berthnasol i Gymru, neu i'w defnyddio neu'i chyhoeddi yng Nghymru
- Holiaduron/arolygon cyhoeddus sy'n berthnasol i Gymru, neu i'w defnyddio neu'u cyhoeddi yng Nghymru
- Cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Cymru

Eitemau categori B: y gellid eu cyfieithu (yn gyfan gwbl neu'n rhannol)

- Ymatebion swyddogol i adroddiadau, cwestiynau i'r Cynulliad ac ati
- Llyfryddiaeth cyhoeddusrwydd/eiriolaeth sy'n cael ei chyhoeddi'r tu allan i Gymru (gan ofyn a yw'r fath lyfryddiaeth yn berthnasol neu o ddefnydd i gynulleidfa yng Nghymru)
- Llythyrau'n comisiynu cyngor gan gynghorwyr neu fonitoriaid arbenigol
- Areithiau a chyflwyniadau (gan ofyn a ydyn nhw'n berthnasol neu o ddefnydd i gynulleidfa yng Nghymru)
- Datganiadau i'r wasg (y wasg Gymraeg ei hiaith yn unig)

Eitemau categori C: a fydd fel arfer mewn un iaith yn unig

- Taflenni ac adroddiadau mae cyrff ac unigolion allanol wedi'u rhoi i'w dosbarthu mewn cynadleddau
- Gwybodaeth hanesyddol/mewn archif
- Gwybodaeth fewnol sy'n cael ei rhyddhau'n gyffredinol dan Ddeddf Gwarchod Data
- Gwybodaeth/cyngor mae trydydd partiön wedi'u rhoi, er enghraifft, cynghorwyr a monitoriaid arbenigol
- Eitemau eraill: rhaglenni a chofnodion cyfarfodydd eraill, papurau pwyllgorau a dogfennau mewnol.

NODYN: Mae'n anochel na fydd pob dogfen wedi'i chynnwys yn y rhestr yma. Dylai staff gymharu dogfennau a barnu'n ofalus wrth asesu a ddylai eitemau fod yn ddwyieithog a dewis categori addas.